PWYLLGOR PENODI

DYDD MAWRTH, 13 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Derbyshire, Jones-Pritchard, Patel a/ac Weaver |

17 : ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd Chris Weaver yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn ar gyfer penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

*(Cynghorydd Chris Weaver yn Cadeirio)*

18 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Dim

19 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

20 : CYLCH GORCHWYL

I nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

21 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

22 : PENODI PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Adolygodd y Pwyllgor deg o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil swydd; gan nodi'r ymgeiswyr hynny fyddai'n mynd ymlaen i'r Cyfweliadau Ymarferol.

PENDERFYNWYD: y câi

(1) Ymgeiswyr 4, 3, 5, 6, 7 a 9 yn cael eu rhoi ymlaen i'r Cyfweliadau Ymarferol fyddai'n cael eu cynnal ar 26 Chwefror 2018;

(2) y Pwyllgor ei ailymgynnull ar gyfer 13 Mawrth 2018 am 3.00pm er mwyn galluogi ystyried yr adborth o'r Cyfweliadau Ymarferol a chytuno a ddylid cyflwyno'r ymgeisydd i gael cyfweliad ar 29 Mawrth 2018.

## 23 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

## 24 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD MAWRTH 13 MAWRTH 2018 AM 3.00PM